Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 3ydd o Fedi 2020.

1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd), Gwilym Evans – Prenteg, Clifford Williams – Garndolbenmaen, Richard Parry – Bryncir, Huw Pritchard, Delyth Evans, Manon Jones Evans – Pentrefelin, Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards – Penmorfa.

2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys, Megan Lloyd Williams, Amanda N Owen, Edward Evans, Dylan Pritchard, John Jones, Dafydd Thomas, Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

3 **Ddim yn bresennol** - neb.

4 **Datgan buddiant** – neb.

5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** – 2/07/20 Iddon Edwards yn datgan eu cywirdeb a Delyth Evans yn eilio.

6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

Pentrefelin – gosod golau stryd ar y pafin ar ôl mynd heibio Plas Gwyn i gyfeiriad Criccieth at Fynydd Du. Heb dderbyn ateb gan Adran Goleuo Stryd, Cyngor Gwynedd. Cysylltu eto.

Treflys – coed heb ei dorri. Cysylltu gyda Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt gysylltu gyda Stâd y Wern.

Canolfan ail-gylchu Bryncir – trigolion sy'n troi fyny heb apwyntiad wedi gadael sbwriel yn yr ardal. Clerc i hysbysu Swyddog Gwastraff ac Ailgylchu Cyngor Gwynedd.

Gwaith torri gwair ardal Garndolbenmaen – gwaith wedi ei gwblhau. Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglyn a safon y gwaith ym Mhentrefelin ac ardal Tan Clogwyn yng Ngarndolbenmaen.

7 **Mynwentydd**

Ffordd Mynwent Prenteg – trafod yng nghyfarfod mis Hydref.

Prosiect Mynwentydd Byw Eryri – derbyniwyd e-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnig i'r Cyngor gymryd rhan mewn prosiect i gyflwyno cynllun fyddai'n gweld dolydd blodau gwyllt a glaswelltir newydd yn cael eu creu o fewn y mynwentydd. Clerc i gysylltu i gael mwy o wybodaeth.

Llwybrau Mynwent Bethel – Clerc i holi Cynghorwyr Golan os oes angen rhoi chwynladdwr ar y llwybrau.

Mynwent Ynyscynhaearn – adroddwyd fod y gwair wedi tyfu. Clerc i holi'r contractwr os yw wedi gwneud yr holl doriadau am y flwyddyn. Os ydy, yna trefnu toriad ychwanegol.

8 **Llwybrau Cyhoeddus**

Llwybr ger Canolfan Cymdeithasol Golan – coeden wedi disgyn ar draws y llwybr. Perchennog y tir cyfagos am drefnu i glirio'r goeden.

Llwybr rhwng Tyn Ffridd a Ffridd Newydd – Clerc i gysylltu gyda Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd i holi pa bryd fydd polyn newydd i hongian y giat yn cael ei osod.

9 **Adroddiad Pentrefi**

Prenteg

Tirlithiad Prenteg – Aberglaslyn. Llifogydd Prenteg – Garreg. Arwyddion dadgyfeirio traffig yn gamarweiniol ac nid yn rhoi manylion clir o'r ffordd i gymryd. Defnyddir arwyddion generic yn hytrach na rhai sy'n rhoi cyfarwyddiadau clir o'r cyfeiriad i ddilyn. Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd.

Cwmystradllyn

Bin ysbwriel wrth y llyn yn orlawn. Clerc i gysylltu gyda Chlwb Pysgota Pwllheli i holi pwy sy'n gyfrifol am ei wagio.

Safle Bwrdd Dŵr – er i'r Cyngor cael addewid gan y Bwrdd Dŵr ym Mawrth 2019 y byddant yn clirio'r safle a torri'r coed, nid yw'r gwaith wedi cael ei wneud. Clerc i gysylltu eto.

Bryncir

Safle pebyll/carafanau ar Fferm Penllystyn – rhai ymwelwyr yn parcio wrth stad tai o'r un enw. Clerc i hysbysu Chyngor Gwynedd o hyn a holi os oes angen trwydded ar gyfer y safle.

10 **Cyngor Gwynedd – ymgynghoriad dileu ffonau talu cyhoeddus**

Trafod ym mis Hydref.

11 **Cyngor Cymuned Llanllyfni – Codi tal am fynediad i'r Wyddfa**

Derbyniwyd e-bost gan Cyngor Cymuned Llanllyfni yn gofyn am gefnogaeth i'w cynnig yn galw ar Arweinydd Cyngor Gwynedd i alw cyfarfod gyda rhanddeiliaid yr Wyddfa i drafod y syniad o godi tal ar ymwelwyr i gerdded yr Wyddfa. Penderfynwyd cefnogi'r cynnig.

12 **Gohebiaeth**

Llythyrau Cyngor Gwynedd – cau ffordd ddi-ddosbarth gyferbyn ag Glan Fawnog, Garndolbenmaen. Rhannwyd 17/07/20.

Gohebiaeth ychwanegol

a Unllais Cymru – Arolwg aelodau ar gynnal cyfarfodydd o bell. Cwblhawyd 10/07/20.
b Unllais Cymru – Canllawiau ar gyfer rheoli meysydd chwarae awyr agored i blant – gyrrwyd at IE a GEH 14/07/20.
c Unllais Cymru – Heddlu Dyfed Powys – sgâm.
ch Unllais Cymru – Partneriaeth gyda Star Leaf.
d Mantell Gwynedd – Bwletin Rhif 4 a Rhif 5.
dd Mantell Gwynedd – Poster Cronfa Argyfwng Trydydd Sector.

13 **Cynllunio**

Rhestrau – dim

Ceisiadau Cynllunio

C20/0524/35/LL Cais ar gyfer llyn pysgota ychwanegol. Eisteddfa, Pentrefelin. Dyddiad cau 09/08/20. Dim gwrthwynebiad.

NP2/16/T351A Codi modurdy Glan y Don Beddgelert. Dyddiad cau 14/08/20. Dim gwrthwynebiad.

C20/0326/0327/36/CR Codi estyniad cefn, dymchwel ac ail adeiladu modurdy. 1 Plas Isaf, Penmorfa. Dyddiad cau 18/08/20. Dim gwrthwynebiad.

NP2/16/152B Estyniadau a gosod gwaith trin carthion. Cerrig Pryfaid, Golan. Dyddiad cau 02/09/20. Dim gwrthwynebiad.
NP2/16/144B Dymchwel sied ac adeiladu tŷ. Iard Brymer, Garndolbenmaen. Dyddiad cau 08/09/20. Dim gwrthwynebiad.

14 **Materion Ariannol**

Ceisiadau am arian: Dim.

Monitro'r Gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	= £	493.06 (Awst a Medi)
Ffôn	= £	20.00 (" " ")
Cyfrifiadur	= £	30.00 (" " ")
HMRC	= £	123.26 (" " ")
Cymru 1	= £	350.40
Veolia	= £	39.66 (Meh a Gorff)
A Hughes-Jones,Dyson a'u Cwmni	= £	360.00

Derbyniadau

Pritchard & Griffiths	= £	360.00
Ad-daliad TAW	= £	1,148.15
Cyngor Gwynedd	= £	9,000.00

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,843.05 Cyfredol £22,815.03

15 **Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan**

- Cyfarfod Blynyddol
- Ceisiadau Cynllunio
- Arwyddion Cau Ffyrdd ardal Prenteg
- Llwybrau Cyhoeddus

Gwefan - Cofnodion mis Gorffennaf, Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Mai 2019.